

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Lleoedd Gwag mewn Ysgolion Surplus School Place

Q11 Peter Black: Will the First Minister make a statement on surplus school places?
OAQ0652(FM)

C11 Peter Black: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar leoedd gwag mewn ysgolion?
OAQ0652(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): School organisation plans published by local education authorities last year, based on September 2003 pupil numbers, indicated that there were over 46,000 net empty primary places and over 22,000 net empty secondary school places in Wales. All local education authorities have surplus capacity, but the level varies greatly.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Yr oedd cynlluniau trefnu ysgolion a gyhoeddwyd y llynedd gan awdurdodau addysg lleol ac a seiliwyd ar nifer y disgyblion ym mis Medi 2003, yn dangos bod dros 46,000 net o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd a thros 22,000 net o leoedd gwag mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae lleoedd gwag ym mhob awdurdod addysg lleol ond mae'r lefel yn amrywio'n fawr.

Effeithlonrwydd yng Ngwariant Llywodraeth Cynulliad Cymru Efficiency in Welsh Assembly Government Spending

Q12 Mark Isherwood: Will the First Minister make a statement on efficiency in Welsh Assembly Government spending?
OAQ0641(FM)

C12 Mark Isherwood: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar effeithlonrwydd yng ngwariant Llywodraeth Cynulliad Cymru?
OAQ0641(FM)

The First Minister: I refer to the Finance Minister's statement on 14 June on 'Making the Connections'. Through the target of achieving gains worth £600 million a year by 2010 across the public service, we are challenging service delivery organisations to achieve greater efficiency, get better value and reallocate resources to the front line.

Y Prif Weinidog: Cyfeiriaf at ddatganiad y Gweinidog Cyllid ar 14 Mehefin ar 'Creu'r Cysylltiadau'. Drwy'r targed o wneud arbedion gwerth £600 miliwn erbyn 2010 ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, yr ydym yn herio'r sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i sicrhau gwell effeithlonrwydd, cynyddu gwerth ac ailddyrrannu'u hadnoddau i'r talcen gwaith.

Llwybrau Diogel i'r Ysgol Safe Routes to School

Q13 Catherine Thomas: Will the First Minister make a statement on what the

C13 Catherine Thomas: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr hyn y mae'r

Assembly is doing to promote safe routes to school? OAQ0645(FM)

Cynulliad yn ei wneud i hyrwyddo llwybrau diogel i'r ysgol? OAQ0645(FM)

The First Minister: Our Safe Routes to School initiative has been enthusiastically welcomed. Since it was introduced in 1999, over £18 million has been made available to local authorities to implement projects in their own areas. Approximately 300 schools are benefiting from capital infrastructure works in and around the school area.

Y Prif Weinidog: Derbyniodd ein menter 'Llwybrau Diogel i'r Ysgol' groeso brwd. Ers ei chyflwyno yn 1999, mae dros £18 miliwn wedi bod ar gael i'r awdurdodau lleol er mwyn sefydlu prosiectau yn eu hardaloedd eu hunain. Mae tua 300 o ysgolion yn elwa yn sgîl gweithfeydd isadeiledd mawr yng nghyffiniau'r ysgol ac yn yr ardal.

Gofal plant Childcare

Q14 Karen Sinclair: Will the First Minister make a statement on childcare in Wales? OAQ0637(FM)

C14 Karen Sinclair: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ofal plant yng Nghymru? OAQ0637(FM)

The First Minister: Childcare brings together many of the Assembly Government's objectives in offering a better start for children, providing life choices for parents and a way out of poverty. In response to the childcare working group's report, we will publish our considered forward strategy for childcare in the autumn.

Y Prif Weinidog: Mae gofal plant yn cyfuno llawer o amcanion Llywodraeth y Cynulliad wrth gynnig cychwyn gwell i blant, rhoi dewisiadau bywyd i rieni a darparu llwybr allan o dlodi. Yn yr hydref, mewn ymateb i adroddiad y gweithgor ar ofal plant, byddwn yn cyhoeddi'r flaen-strategaeth ar ofal plant a drafodwyd gennym.

Ffermio Farming

Q15 William Graham: Will the First Minister make a statement on farming in Wales? OAQ0646(FM)

C15 William Graham: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ffermio yng Nghymru? OAQ0646(FM)

The First Minister: Our sponsored bodies deliver a wide range of programmes to support farming in Wales. The strategic direction is set out in 'Farming for the Future: A New Direction for Farming in Wales', which remains valid, and an action point progress report was published on 22 June 2005.

Y Prif Weinidog: Mae'r cyrff a noddir gennym yn cyflwyno amrediad o raglenni i gefnogi ffermio yng Nghymru. Gwelir y cyfeiriad strategol yn 'Ffermio i'r Dyfodol: Cyfeiriad Newydd ar gyfer Ffermio yng Nghymru', sydd yn dal yn ddilys, a chyhoeddwyd adroddiad cynnydd â phwyntiau gweithredu ar 22 Mehefin 2005.